
HM Courts & Tribunals Service

Justice matters

# Adysgrifiad o Bodlediad ynglŷn â’r Rhaglen Ddiwygio

Sgwrs rhwng Susan Acland-Hood a’r academydd cyfreithiol, Richard Susskind am lysoedd digidol a chynnydd y rhaglen ddiwygio hyd yma.

Ebrill 2019



**Richard Goodman:** Croeso i bodlediad allanol cyntaf GLITEM. Heddiw mae Richard Susskind yn ymuno â ni. Mae Richard wedi cyhoeddi'n helaeth ym maes y Gyfraith a Thechnoleg ac mae ar fin cyhoeddi ei ddegfed llyfr, sy'n cyffwrdd â dyfodol cyfiawnder ar-lein. Bu'n cynghori'r uwch farnwriaeth am sawl blwyddyn am ddyfodol cyfiawnder digidol. Mae Susan Acland-Hood, prif weithredwr Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi yn ymuno â ni hefyd. Hi sydd wedi bod yn arwain y rhaglen ddiwygio ddigidol hyd yma. Rydym yn recordio hwn wrth inni gyrraedd carreg filltir newydd yn y rhaglen ddiwygio gan fynd â dros 100,000 o ddefnyddwyr drwy wasanaethau digidol newydd sydd wedi eu cyflwyno ym maes hawliadau sifil, ysgariad, profiant, apeliadau nawdd cymdeithasol a rhai o'r troseddau lleiaf difrifol yn ogystal. Y bwriad yw myfyrio ar ddatblygiad y rhaglen ac, yn bwysicach, ar y dyfodol. Yn y cyswllt hwn, yn ddiweddar mi fuoch yn cyd-lywyddu yn y fforwm ryngwladol gyntaf ar lysoedd ar-lein a fynychwyd gan ddwsinau o awdurdodaethau. Beth ddysgoch chi yno?

**Richard Susskind:** Y peth cyntaf ddaru ni ei ddysgu oedd bod diddordeb mawr yn y maes yn rhyngwladol ac roedd hi'n braf iawn gweld hynny. Daeth oddeutu 300 o bobl o 26 o wledydd yno, rhai ohonynt yn swyddogion ac yn farnwyr ar lefel uchel iawn. Ac felly mae'n amlwg bod awydd yn rhyngwladol i ddarparu gwasanaethau'r llysoedd mewn ffyrdd newydd a gwahanol, ffyrdd sy'n gwneud y system yn fwy fforddiadwy, yn gynt, yn fwy dealladwy ac yn fwy cymesur. Rydym yn gallu synhwyro ein bod ar ddechrau cyfnod o newid sylfaenol rhyngwladol yn y ffordd y mae'r llysoedd yn gweithio a'r ffordd y gweinyddir cyfiawnder.

**Susan Acland-Hood:** Rwy'n cytuno. Ac rwy'n credu bod yna nifer o themâu cyffredin diddorol a gyflëwyd gan y cyfan bron o'r rhai a fynychodd y fforwm. Yn gyntaf oll, pan fo pobl yn gwneud newidiadau digidol i'w systemau, roedd pawb o'r farn mai'r newidiadau mwyaf llwyddiannus oedd y newidiadau a oedd yn dechrau efo pobl, gyda phrofiadau dynol, gyda theimladau pobl wrth iddynt fynd drwy'r system. Ac roedd ymdeimlad cryf iawn hefyd mai'r newidiadau mwyaf llwyddiannus oedd y rheiny nad oedd yn derbyn y system fel y mae gan geisio cynhyrchu rhyw ailbobiad digidol ohoni ond, yn hytrach, newidiadau a oedd yn deillio o feddwl yn wahanol am sut y gellid gwneud pethau mewn ffordd wahanol a oedd yn gwneud mwy o synnwyr, yn haws ac yn hwylusach. Roedd yna bethau calonogol iawn hefyd am sut rydym yn gwneud hyn yn y DU, gan nad ydym yn gwneud rhywbeth sy'n anghyffredin neu'n anarferol. Mewn rhai pethau rwy'n credu ein bod ar flaen y gad ond mae'n sicr ein bod yn rhan o rywbeth y mae pawb yn gysylltiedig ag ef. Ac mae gennym fanteision eglur. Roedd yna rai awdurdodaethau a oedd yn genfigennus o'r ffaith ein bod yn gwneud hyn mor glos mewn partneriaeth â'r farnwriaeth ac mae'n sicr fod yna rai llefydd lle na chafwyd y gefnogaeth farnwrol a gawsom ni i ddechrau symud y rhaglen hon yn ei blaen.

**Richard Goodman:** Felly beth ddwedwch chi wrth bobl sydd fymryn yn amheus ynglŷn â natur oeraidd a ffurfiol ymddangosiad gwasanaethau digidol? Mae gwasanaeth greddfol, naturiol un dyn yn beiriant dienaid i ddyn arall. I ba raddau y mae yna sail i'r cyhuddiadau hyn, nad system gyfiawnder well yr ydym yn ei datblygu ond peiriant digidol?

**Richard Susskind:** Mae'r mater yma yn ymwneud â'r bwlch rhwng cenedlaethau. Rwy'n meddwl y bydd ein plant yn gweld y gwasanaethau hyn yn rhai greddfol a naturiol ac y byddant yn gofyn, pam ar wyneb daear yr oedd cymaint o waith y llysoedd yn cael ei wneud yn y ffordd draddodiadol. Tra bod pobl sydd naill ai wedi eu trwytho yn y system gyfiawnder (rhai a fu'n gyfreithwyr neu'n farnwyr am flynyddoedd lawer) neu bobl o'm cenhedlaeth i yn cael trafferth dychmygu gwasanaeth yn y llys sy'n wahanol i rywbeth a welir ar y teledu neu y darllenir amdano mewn llyfr. Ond i'r genhedlaeth ifanc sy'n tyfu ac

sy'n troi at y digidol i gael gwybodaeth, cyfarwyddyd neu wasanaeth o unrhyw fath, ymddengys i mi y bydd hyn yn naturiol. Mae ein disgwyliadau yn naturiol ac yn synhwyrol. Mae'n ddigon eglur fod y syniad y gellir cael system gyfiawnder ddealladwy hygyrch a fforddiadwy yn addas iawn mewn cyfnod – ac rwy'n credu bod hyn yn codi yn y sector breifat– pan fo pobl yn dweud na ddylem ddefnyddio'r llysoedd mewn gwirionedd ac y medrwn ddefnyddio rhyw fath o system ar-lein a ddarperir gan y sector breifat. O'm rhan i, rwy'n credu ei bod hi'n bwysig iawn fod gennym system lysoedd gyhoeddus, sy'n cadarnhau pwysigrwydd trefn y gyfraith yn ddyddiol a phwysigrwydd y farnwriaeth. A chan hynny, rhaid inni foderneiddio a digideiddio a chadw i fyny â datblygiadau yn y sector breifat.

**Susan Acland-Hood**: Rwy'n cyd-fynd yn llwyr. Ond rwy'n meddwl fy mod yn arddel un safbwynt gwahanol ynglŷn â beth a olygwn wrth inni sôn am systemau digidol. Rwy'n credu y gall systemau digidol gefnogi gwaith y llys mewn sawl ffordd. Ac rwy'n meddwl ei bod hi'n bwysig iawn ein bod yn cynnig gwahanol lwybrau at gyfiawnder ar gyfer gwahanol broblemau. Ac, rwy'n gwir gredu bod meddwl am hyn o safbwynt dynol yn golygu penderfynu beth sy'n mynd i weithio orau i bobl mewn gwahanol amgylchiadau. Ac mae yna gymhariaeth yr ydw i wedi ei defnyddio o'r blaen. Tydy hi ddim yn berffaith ond mae hi'n gweithio i ryw raddau. Rwy'n cofio pan oeddwn yn ifanc fod yn rhaid cael llyfr banc i gael arian o'r banc a bod yn rhaid mynd i'r banc a rhoi'r llyfr i'r gweithiwr wrth y cownter ac y byddai yntau'n ysgrifennu yn y llyfr ac yn ei roi yn ôl ichi efo'r arian. Ac rwy'n cofio'r peiriannau tynnu arian yn cyrraedd a tydw i ddim yn defnyddio peiriant tynnu arian i dynnu arian o'r banc am fod hynny'n rhatach i'r banc. Rwy'n defnyddio peiriant tynnu arian i dynnu arian o'r banc am fod hynny'n hwylusach o'r hanner imi na mynd i'r banc. Fodd bynnag, pe bawn i eisiau trafod morgais, mae'n sicr y byddwn eisiau trafod hynny efo rhywun. Ni fyddai fawr o wahaniaeth gennyf ai trafodaeth wyneb yn wyneb ynteu drafodaeth dros y ffôn fyddai honno, ond mi fyddwn eisiau cael sgwrs efo rhywun, ac mae hynny'n weithgarwch hollol wahanol. Ac felly efallai y byddwn yn teimlo ein bod yn sefydlu rhai prosesau sylfaenol syml iawn sy'n teimlo braidd yn ffurfiol ac oeraidd. Ond os yw cyflymder, effeithiolrwydd, hwylustod a chyfleuster yn hanfodol, tydw i ddim yn meddwl fod hynny'n beth drwg. Ond mae'n hanfodol wrth gwrs, yn achos rhywbeth o natur wahanol, pan fo ar bobl angen dod i'r llys i gyflwyno eu tystiolaeth a chyfleu eu teimladau, ein bod yn gwneud hynny hefyd. Rhaid defnyddio'r cyfrwng iawn ar gyfer y peth iawn.

**Richard Susskind**: Pan fo pobl yn clywed am lysoedd ar-lein, maent yn reddfol yn meddwl am achosion cymhleth iawn. Efallai eu bod yn meddwl am achosion o lofruddiaeth, neu anghydfod masnachol mawr. Achosion cyffredin o ddydd i ddydd sydd o ddiddordeb imi - nifer mawr iawn o achosion ar lefel gymharol isel lle mae angen system sy'n gymesur â hynny i ddatrys yr achosion hyn. Rwy'n meddwl ein bod yn rhoi pwysau ar y digidol, ein bod yn siarad am gyfiawnder ar-lein ac yn y blaen am ein bod mewn cyfnod ffiniol gyda symudiad o system gyfiawnder yn seiliedig ar ddogfennau papur i system a alluogir gan dechnoleg. Ond yn y man, bydd un gwasanaeth llysoedd a ddarperir drwy amryw gyfryngau.

**Susan Acland-Hood:** Rwy'n sicr bod hynny'n gywir. Mae gennym rywbeth a elwir yn llys papur lle gwrandewir achosion ar bapur heb iddynt ddod o flaen barnwr a tydan ni byth yn sôn am y llys papur. Nid peth penodol ydy hwn. Dim ond llwybr ydyw ar gyfer yr achosion sydd fwyaf addas ar gyfer y llwybr hwnnw. Mae disgresiwn barnwrol ynglŷn â'r llwybrau sydd fwyaf addas i achosion neilltuol gan amlaf. A byddai'n syndod pe na baem o reidrwydd yn sôn am y llys ar-lein fel peth yn sefyll ar ei ben ei hun yn y dyfodol. Rwy'n meddwl ein bod yn fwy tebygol o sôn am system y llysoedd ac y bydd dealltwriaeth ddigrybwyll y bydd set resymol o wahanol ffyrdd o ymdrin â phethau. At hynny, rwy'n

meddwl mai peth digon rhyfedd yw cymryd yn ganiataol mai'r unig ddefnydd priodol o wasanaethau digidol yw eu defnyddio fel rhywbeth i gymryd lle gwaith a wneir gan bobl yn llwyr. Nid amcan llawer o'r diwygiadau yr ydym yn eu cyflwyno yw cymryd lle gwrandawiadau yn y llys a chyflwyno gwrandawiadau fideo neu ddigidol llawn, mae llawer yn amcanu at gyflwyno technoleg a fydd yn cefnogi cynnal gwrandawiadau graenus mewn llysoedd go iawn. Rwy'n meddwl fod rhywfaint o wir yn hyn, ac mae'n ddigon posib y dylem feddwl yn fwy gofalus am yr iaith yr ydym yn ei defnyddio.

**Richard Goodman:** Felly sut mae deall beth sy'n digwydd yn y system newydd ddisglair yma? Mae llawer o'r hyn yr ydym wedi bod yn ei drafod yn adlewyrchu gwahanol lwybrau, ond rydym hefyd yn disgrifio'r ddealltwriaeth gyffredinol a sut y sefydlir honno dros amser, a sut y gellir cael mynediad at y system gyfiawnder a gweld sut y gweinyddir cyfiawnder a deall beth fydd canlyniad eich achos. Ac ymddengys i mi bod y chwyldro digidol yn esgor ar gymaint o heriau yn hyn o beth ag a brofir wrth adeiladu'r system yn y lle cyntaf. Felly sut mae gwneud y system yn fwy agored?

**Richard Susskind:** Mae tryloywder y system yn ei chyfanrwydd yn un ystyriaeth. Ac mae tryloywder mewn perthynas ag achosion unigol hefyd gan y gallai fod ar rai unigolion eisiau cyfiawnhad yn llygaid y cyhoedd ac felly bod y canlyniad ar gael yn gyhoeddus. Ac rwy'n sicr y byddwn yn sefydlu system nad yw'n llai tryloyw ond yn hytrach system a fydd yn fwy tryloyw. Rydw i eisoes yn meddwl, a bydd Susan yn gallu sôn mwy am hyn, y bydd data ar gael; bydd peirianwaith sylfaenol y system yn weladwy ac yn gyffredinol bydd hynny'n mynd y tu hwnt i'r hyn a welwyd yn y gorffennol. Mae tryloywder yn codi mater astrus cyfiawnder agored. Mae llawer o bobl yn pryderu bod rhyw fath o beiriant cyfrifiadurol yn gwneud penderfyniadau. Dylwn ddweud yn gyntaf oll, ein bod at ein gilydd yn meddwl am y genhedlaeth gyntaf o systemau sy'n dal i ddefnyddio pobl, dim ond eu bod yn gweithio gydag arfau gwahanol felly ar hyn o bryd does yna ddim perygl y bydd algorithmau yn gwneud penderfyniadau barnwrol. Gellir dychmygu y gallai hynny fod yn rhywbeth y bydd angen ei drafod yn y dyfodol. Ond ar hyn o bryd rydym yn trafod cwestiwn cyfiawnder agored mewn perthynas â natur weladwy achosion unigol.

**Susan Acland-Hood:** O safbwynt y gwaith yr ydym yn ei wneud rydym wedi sefydlu'r egwyddor nad ydym yn mynd i fod yn llai agored nag yr ydym ar hyn o bryd yn unrhyw ran o'r system. A phan fo modd byddwn yn ceisio bod yn fwy agored ac fel y dywedodd Richard, mae hynny'n wir ar lefel y system yn ei chyfanrwydd ac ar lefel achosion unigol. Gyda golwg ar y system yn ei chyfanrwydd, rwy'n meddwl mai un o'r pethau mwyaf cyffrous ynglŷn â'r rhaglen ddiwygio yw'r cyfle y mae'n ei gynnig, i ddefnyddio data yn fewnol mewn ffordd fwy grymus a rhannu data yn ehangach yn allanol er mwyn i bobl allu gweld beth sy'n digwydd yn y system yn gliriach. Mae cyfle anferth i wneud i'r system weithio'n amgenach i bobl, a dangos sut mae hi'n gweithio i bobl ar raddfa fawr. Yn nhermau achosion unigol, mae defnyddio ffyrdd gwahanol o wneud pethau'n golygu meddwl o'r newydd am ystyr bod yn agored ac ni fu hwn erioed yn gwestiwn hollol ddigymhlethdod yn y system gyfiawnder. Rydym wastad wedi arddel yr egwyddor sylfaenol fod yn rhaid i gyfiawnder fod yn agored, fod yn rhaid i bobl allu gweld cyfiawnder yn cael ei weinyddu ac mai un o'r ffyrdd i sicrhau bod y system yn deg yw sicrhau bod pobl yn gallu craffu ar y system ac erys hynny'n hanfodol. Fodd bynnag, ni fu hon erioed yn egwyddor absoliwt. Felly, ym maes cyfiawnder troseddol, buwyd yn wastad yn sicrhau cydbwysedd rhwng bod yn agored a thryloyw ar y naill law a rheoli, ar y llall, hawliau'r troseddwr gael ei adsefydlu yn y man. Felly rhaid sicrhau nad yw camau i wneud cyfiawnder yn fwy agored yn creu cyfleoedd i bobl ymyrryd â set o egwyddorion ynglŷn ag adsefydlu troseddwyr. Rhaid meddwl yn hir am sut i wneud pethau mewn ffordd newydd.

**Richard Goodman**: Susan, mi wnest grybwyll fod cyfoeth o ddata a gwybodaeth yn codi o'r systemau hyn neu y gallai cyfoeth o ddata a gwybodaeth godi ohonynt dros amser. A thros 100,000 achos wedi mynd trwy'r systemau gwybodaeth hyn hyd yma, beth ydym ni wedi ei newid o ganlyniad i'r cannoedd o filoedd o dameidiau o wybodaeth a data?

**Susan Acland-Hood:** Mae hi'n anodd cyfeirio at rywbeth mawr amlwg ond mae hyn yn dangos beth mae cyfoeth o ddata mewnol yn ei roi ichi, mae'n rhoi'r gallu ichi wneud llawer o newidiadau bychain sydd gyda'i gilydd yn arwain at well gwasanaeth o'r hanner. Dyna'r gwasanaeth ysgaru er enghraifft, efallai y bydd rhai ohonoch sy'n gwrando ar y podlediad hwn wedi clywed yr ystadegyn yma o'r blaen gan fy mod yn cyfeirio ato'n aml: ond gwrthodid tua 40% o'r hen ffurflenni papur yr oeddem yn eu defnyddio, roeddem yn dychwelyd eu ffurflenni i oddeutu 40% o'r bobl a'u cyflwynodd am eu bod wedi gwneud camgymeriad ac roedd hynny'n dân ar groen pobl yr oedd arnynt eisiau ysgariad ac nid oedd yn ffordd effeithlon o weithio i ninnau. Felly wrth greu'r system newydd fe wnaethom ymdrechu i greu system ddealladwy. Llwyddodd fersiwn gyntaf y gwasanaeth digidol i ddod â chanran y ffurflenni a wrthodid i lawr i oddeutu 8%. Roedd hyn yn dda iawn ond nid oedd yn ddigon da. Un o'r pethau a wnaethom efo'r data a oedd yn dod drwy'r system oedd craffu ar y rheswm pam ein bod yn dychwelyd 8% o'r ffurflenni yn y system ddigidol - beth oedd pobl yn ei gamddeall, yn ei gamddehongli ac yn ei gael yn anghywir? Felly addaswyd y cwestiynau mewn ymateb i'r data hwnnw a daeth canran y ffurflenni a wrthodwyd yn llai ac yn llai. Roedd yna ambell i gam mawr ymlaen, er enghraifft drwy roi hawl i bobl gyflwyno copi o'u tystysgrif priodas drwy dynnu llun ohono gyda'u ffôn, bu gostyngiad mawr yn nifer y camgymeriadau gan fod pobl yn gwneud llawer o wallau wrth gopïo manylion eu tystysgrifau priodas. Canlyniad hyn oll fu naddu cyfradd y camgymeriadau i lawr o 8% yn y fersiwn gyntaf i'r gyfradd gyfredol sydd rhwng 0.3% a 0.4%, ac mae'r gyfradd hon wedi bod yn gyson ers peth amser rŵan.

**Richard Goodman**: Mae'n amlwg fod gwasanaethau digidol yma'n barhaol. Ond beth fyddech chi'n ddweud wrth bobl sy'n meddwl bod gormod o bwyslais ar y digidol a'n bod yn rhoi rhy ychydig o sylw i ymwneud wyneb yn wyneb ac adeiledd yr amgylchfyd yr ydym yn gweithio ynddo ac yn dod ynghyd yno fel bodau dynol, sydd o reidrwydd yn teimlo'n wahanol i amgylchfyd digidol.

**Richard Susskind:** Mae'r cyfle hwn ar gael i bawb ohonom. Mae gan ein cenhedlaeth ddyletswydd i fanteisio ar y dechnoleg hon i'r eithaf. Nid yw hynny'n golygu anwybyddu'r elfen ddynol. Yr amcan yw ystyried ffyrdd gwahanol a gwell o ychwanegu at y gwasanaeth traddodiadol, sut y gellir cadw'r elfen ddynol sy'n bwysig inni, ond gan gyrraedd ymhellach, mae llawer o'r trafodaethau am lysoedd ar-lein gyda chyfreithwyr a barnwyr yn tueddu i ganolbwyntio ar yr anfanteision. Mi fyddaf i'n dweud wrth fyfyrwyr sy'n astudio'r gyfraith a graddedigion yn y gyfraith fod ganddynt y posibilrwydd, yn fwy felly nad unrhyw genhedlaeth arall o'u blaenau, nid i ddilyn cyfreithwyr a barnwyr a fu o'u blaen ond i helpu i weddnewid y system gyfiawnder. A dyna bosibilrwydd cyffrous. Ac felly rwy'n awyddus i annog pobl i beidio ag arddel safbwyntiau amddiffynnol wrth drafod llysoedd ar-lein, a gweld mai hyn o bell ffordd – yn ystod fy ngyrfa o bron i ddeugain mlynedd yn edrych ar sut y gellir gwella'r llysoedd – sydd â'r potensial mwyaf i gynyddu cyfiawnder mewn ffordd radical yn fwy nag erioed o'r blaen. Mae hon yn her ryngwladol a thrafodwyd hynny yn y gynhadledd ac mae'n anhygoel meddwl bod mai dim ond 43% o bobl y byd sy'n cael eu gwarchod gan y gyfraith. Mi ddwedais hynny yn y digwyddiad, mae yna fwy o bobl sydd â mynediad at y rhyngrwyd nag o bobl sydd â mynediad at gyfiawnder. Dyma ymddieithrio ac ymbellhau ar raddfa anhygoel, ac rwy'n meddwl bod y rhan fwyaf ohonom sy'n gweithio yn y maes ac sy'n frwdfrydig, yn gweld bod gennym rywbeth cyffrous ac arbennig iawn o fewn ein cyrraedd.

**Susan Acland-Hood:** Rwy'n credu bod y cyfle yma ac na ddylid gadael iddo fynd heibio. Fodd bynnag, mae hi'n werth dweud ein bod yn aml yn trafod gwasanaethau digidol gan mai hynny sydd fwyaf newydd ac sydd fwyaf dieithr i bobl, a hefyd am mai hynny sy'n cynrychioli'r newid amlycaf yn ein system. Ond nid rhaglen ddigidol yw rhaglen ddiwygio GLITEM mewn gwirionedd, mae'n rhaglen sy'n newid y ffordd yr ydym yn gwneud pethau mewn amryfal ffyrdd, rhai ohonynt yn seiliedig ar dechnoleg. Mae rhan fawr o'r rhaglen sy'n ymwneud ag adeiladau, a rhan fawr arall sy'n ymwneud â phobl – nid yn unig y bobl sy'n defnyddio'r llysoedd yr ydym yn awyddus i adeiladu'r system gan ystyried eu hanghenion, ond staff rhagorol GLITEM sy'n greiddiol i waith y llysoedd. Mae eu hymroddiad yn anhygoel ac rydw i wedi gweld hynny bob diwrnod ers imi ddechrau yn fy swydd, braint fawr yw gweithio efo'r bobl sy'n gweithio i GLITEM. Ond ein cyfle gorau i sicrhau ein bod yn cael y buddsoddiad y mae arnom ei angen yn ystad y llysoedd yw sicrhau ein bod yn gallu dweud yn onest, wrth lunio achos am fuddsoddiad – ac rwy'n gwneud hynny'n aml -  ein bod yn rhedeg y system hon yn y ffordd fwyaf effeithiol ac yn defnyddio'n cyllid yn y ffordd orau un. Ar y sail hwnnw, rwy'n gallu dweud beth sydd ei angen i redeg y system a byddaf yn defnyddio'r cyllid yn y ffordd fwyaf effeithiol.

**Richard Susskind:** Er hynny tydw i ddim yn awyddus i bobl feddwl mai effeithiolrwydd ac arbedion sy'n gyrru hyn gan ein bod yn cytuno mai gwella ansawdd y gwasanaeth yw'r peth creiddiol, a chyrraedd ymhellach.

**Susan Acland-Hood:** Ie, gwella'r gwasanaeth yw'r peth creiddiol. Ond rhan o'n hymdrech i wella'r gwasanaeth yw sicrhau ein bod yn defnyddio'n cyllid i ariannu'r pethau fydd yn gwneud gwahaniaeth.

**Richard Goodman**: Rydym wedi trafod cryn dipyn ar fynediad at gyfiawnder gyda phobl y mae arnynt eisiau defnyddio'r system, a chyflwyno hawliad, a dod i'r llys neu ymdrin â'u hachos yn ddigidol. Beth am y bobl hynny nad ydynt yn cael dewis a ydynt am ddod i gyswllt â'r system ai peidio? Diffynyddion, pobl y mae hawliadau yn eu herbyn, pobl sy'n cael eu dal ynghanol achosion o ymgyfreitha, gydag awdurdodau lleol er enghraifft yng nghanol hynny. Sut fydd llysoedd ar-lein yn gwella pethau i'r rhain?

**Richard Susskind**: Rwy'n credu bod modd cymhwyso'r un egwyddorion, fodd bynnag pan fo pobl yn rhan o'r system maent yn awyddus iddi fod yn fforddiadwy, yn ddigon cyflym, ac – yn neilltuol yn achos pobl sy'n eu cynrychioli hwy eu hunain – rhaid i'r broses fod yn ddealladwy, ac mae gofyn i bobl gael hyder yn y system ac iddi hithau beidio ag ymddangos yn ffordd hynafol ac ar ei hôl hi o ddatrys anghydfod. Felly, ymddengys i mi fod yr un egwyddorion yn berthnasol drwy'r system.

**Susan Acland-Hood:** I raddau rwy'n meddwl, yn achos pobl sydd wedi eu tynnu i mewn i'r system, nid o'u dewis eu hunain ond am fod rhywbeth allanol wedi eu gorfodi i fod yn rhan ohoni, rwy'n meddwl fod gofyn iddi fod yn ddealladwy iddynt, yn rhwydd, ac ni ddylai cymryd mwy o amser nag sydd ei angen i ddatrys y mater. Yn GLITEM rydym yn sôn yn awr am weinyddu cyfiawnder mewn ffordd ddynol, a gellid meddwl llawer mwy am sut mae'r system yn ymddangos i rywun sy'n cael ei dynnu i mewn iddi o'r tu allan, heb ddewis hynny, a gweithio'n galed i wneud yn siŵr nad ydym yn gwneud pethau sy'n dieithrio pobl neu'n drysu pobl neu sy'n peri gofid diangen.

**Richard Goodman:** Felly, i gloi, rhowch ryw syniad inni o sut fydd pethau'n edrych ymhen deng mlynedd.

**Susan Acland-Hood:** Y peth pwysicaf i mi yw y byddwn ymhen deng mlynedd wedi lleihau’r rhwystrau sy’n nadu pobl rhag medru datrys rhychwant fawr o broblemau y gallent eu hwynebu a fyddai efallai yn peri iddynt ddod i gyswllt â’r system gyfiawnder. Ac rwy’n meddwl mai’r ffordd orau o gyfleu hynny yw gwrando ar lais defnyddwyr sydd wedi defnyddio’r systemau hyn. Rydw i am i bawb sy’n dod i gyffyrddiad â’n system ddweud pethau fel – dyma ddywedodd rhywun sydd wedi defnyddio’r gwasanaeth newydd i gyflwyno apêl nawdd cymdeithasol a gofal plant: "mae hwn yn brofiad hollol newydd imi a feddyliais i ddim erioed y byddai modd imi wneud hyn. Rydw i mor falch ei bod hi mor hawdd gwneud." Yn ddelfrydol ymhen deng mlynedd bydd pobl yn llai argyhoeddedig cyn dechrau defnyddio gwasanaeth fod gwneud hynny’n amhosibl oherwydd byddant yn gwybod ar sail eu profiad hwy eu hunain a phrofiad eraill o’r cwmpas fod y system gyfiawnder yn eiddo iddyn nhw, nid i ryw grŵp arall o bobl. Bydd y system yn ddealladwy iddyn nhw a byddant yn gallu ei defnyddio gan ddisgwyl, yn ddigon rhesymol, os oes ganddyn nhw achos da a mater sydd angen ei ddatrys, y bydd hi’n bosib datrys y mater hwnnw. Ac yn fy marn i, hynny sy’n hanfodol, mae hynny’n fwy hanfodol na meddwl am ddulliau a chyfryngau: sut y gwneir pethau. Os yw rhywun wedi dioddef anghyfiawnder mawr neu os yw rhywun wedi cael cam y mae angen ei gywiro, fe ddylai’r unigolyn hwnnw fedru bod yn dawel ei feddwl nad ydy hi ddim yn mynd i fod yn aruthrol o anodd i ddatrys y mater.

**Richard Susskind:** Rwy’n teimlo'r un fath. Rhaid sylweddoli nad yw deng mlynedd yn gyfnod hir iawn. Ond mae technoleg yn datblygu mor gyflym, ac yn fy marn i mae hi’n fwy tebygol y bydd ein bywydau’n newid mewn amryfal ffyrdd, yn y degawd nesaf, drwy gyfrwng technoleg nad yw eto wedi ei dyfeisio. Rydym yn wynebu degawd o newid syfrdanol. Rwy’n cydnabod fy mod yn dueddol o edrych ar bethau o safbwynt digidol ond, gan roi’r llysoedd o’r naill du am eiliad, rydw i o’r farn y bydd materion cyfreithiol cyffredin yn cael eu datrys ar-lein ymhen deng mlynedd. Bydd cyfleusterau’r llys wedi eu hintegreiddio’n well ym mywyd beunyddiol y bobl. Hynny yw, ni fydd yn rhoi’r argraff ei fod yn rhyw fyd pellennig anhyfryd, sy’n anghynefin iddynt heb gymorth arbenigwyr. Tydw i ddim yn awgrymu y bydd y system gyfreithiol yn y dyfodol yn gwneud cyfreithwyr yn afraid. Ond rydw i am bwysleisio er hynny mai arwydd o gymdeithas fwy gwâr fydd bod pobl yn deall ac yn mynnu eu hawliau drwy gyfleusterau ar-lein at ei gilydd ac y byddant yn gallu gwneud hynny heb i’r drefn fod yn ddychryn iddyn nhw, ac y bydd hynny’n fforddiadwy, yn ddi-boen ac yn gyfleus. Dyna fydd yn nodweddu’r drefn newydd a bydd y drefn yn grymuso pobl.

**Richard Goodman:** Diolch yn fawr Susan, Richard, a phawb sydd wedi bod yn gwrando arnom. Mae’r newyddion diweddaraf am raglen ddiwygio GLITEM ar gael - yn ddigon priodol - ar-lein, yn cynnwys manylion o’r Fforwm Ryngwladol ar GOV.UK/HMCTS. Gellir tanysgrifio hefyd i dderbyn hysbysiadau drwy e-bost, yr e-fwletin misol, a darllen y diweddariad ar y rhaglen ddiwygio sy’n darparu’r wybodaeth ddiweddaraf ar yr holl brosiectau ym mhob awdurdodaeth. Os oes gennych unrhyw gwestiynau am gynnwys y podlediad hwn mae croeso ichi gysylltu â ni. Y cyfeiriad e-bost yw changesomethingthatmatters@justice.gov.uk. Rydym yn edrych ymlaen at glywed eich sylwadau. Diolch am wrando.

.

